# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (COMMITTEE ROOM 1/2 - PORT TALBOT CIVIC CENTRE)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, R.MacGregor a/ac T.Davies |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2019.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF. P2019/5389 - CANOLFAN CROESO, HEOL PONTNEDDFECHAN, GLYN-NEDD**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (cadw'r adeilad allanol ar wahân sydd eisoes yn bodoli yn ogystal ag estyniad unllawr ar yr ochr i'w gysylltu â'r prif adeilad er mwyn hwyluso symud y gegin i'r adeilad allanol; adeiladu ffens a gât 2 medr o uchder er mwyn amgáu'r ardal storio allanol; gosod drws yn lle ffenestr i estyniad ochr y prif adeilad yn y Ganolfan Croeso, Heol Pontneddfechan, Glyn-nedd SA11 5NR) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5389, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 4. CAIS RHIF. P2019/5420 - 14 CILGANT ELBA

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (newid o annedd breswyl (C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (C4) 5 ystafell wely ac estyniad cefn deulawr yn 14 Cilgant Elba, Twyni Crymlyn, Abertawe SA1 8QQ) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â Phrotocol Siarad Cyhoeddus a gymeradwywyd gan y cyngor, roedd yr asiant a oedd yn cynrychioli'r Ymgeisydd wedi annerch y Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5420, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 5. APELIADAU A DDERBYNIWYD - 18 MEDI I 28 HYDREF 2019

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r Apeliadau Cynllunio canlynol a dderbyniwyd, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl: A2019/5004

Newid defnydd o Dŷ Tafarn (Dosbarth A3) i Annedd (Dosbarth C3) yn Farmers Arms, Heol Glyn-nedd, Resolfen SA11 4DW

Cyf. yr apêl: A2019/5005

Estyniad ar gyfer storfa unllawr ar ochr/flaen yr annedd yn 5 Stryd y Frenhines, Glyncorrwg SA13 3BL.

6. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 18 MEDI I 28 HYDREF 2019**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 18 Medi a 28 Hydref 2019, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**